# Llén natur

## Bwletin 126 Awst 2018

**“Cynnwys fel Muesli ” meddai rhywun yn ddiweddar. Gallwn fyw efo hynny!**



Wyn Bowen Harris
Sglefren mwng llew Traeth Lligwy. Tua 1m ar draws.



**"Pori a dim pori ar lethrau Rhobell Fawr": Mae'r ddelwedd uchod yn dangos y ffordd i fynd yn yr ucheldir - llai o ddefaid, mwy o fugeilio a mwy o hwsmoniaeth. Ond mae gwaddol 'conuffernols' y ganrif ddiwethaf yn peryglu'r broses hon. Mae Keith Jones yn dinoethi'r broblem.**

Cwestiwn? Oes cyfrifoldeb gan Cyfoeth Naturiol Cymru am y coed bytholwyrdd (Sitka, neu Norwy dwi'n meddwl) sydd i weld yn ymsefydlu ar hyd mynyddoedd Cefnen Nantlle o Mynydd Drws y coed hyd at Cwm Silyn. Dim ond o goedwig Beddgelert (sydd yn eiddo i CNC) sydd i'w weld yn darddle posibl i'r hadau? Mae'n pity gweld y coed yma yn gorymdeithio ar draws y mynyddoedd. **Keith Jones**

John Harold (Cymdeithas Eryri): "mae rhaglen gwaith Cymdeithas Eryri yn cynnwys ymdrechion i leihau yr ymfyddwyr conuffernol ar safleoedd mawndir/gwlyptir - dalgylch Afon Eden, Penaran , rhwng Traws a Llanwchllyn, Cors Bodgynydd ayyb"

**Mae yna restr o rywogaethau gan CNC o blanhigion a choed anghynhenid ymledol sydd DDIM yn cynnwys yn ôl pob sôn Sbriws Sitca a choed 'conuffernol' eraill.**


## Y dystiolaeth anwadadwy (casglwyd gan Keith Jones)

## ...dewch a chwaneg pan welwch i gonuffernols ar eich trafals!







Cefnen Nantlle o Fynydd Drws y coed hyd at Cwm Silyn



Dim yn bell o faes parcio Anafon (giat mynydd). Dim llawer yma o feddwl be sydd ochr arall i'r Dyffryn



Bwlch goriwaered ar lethrau Rhobell Fawr. Nifer o goed conwydd ar dir sydd ddim wedi ei bori. Does dim ar y tir sydd wedi ei or-bori.



Ar ben Moel yr Ogof heddiw. Conuffernol ar y copa. Wedi cael sgwrs gydag amryw o swyddogion CNC. Pawb yn cydnabod y problem. Yn y dyfodol, gyda llai o stock yn pori ar y mynydd fydd mwy o rhain

Mae'r fath o goedwig yn lledu ar Dduallt, Moel Llefn a Moel yr Ogof. Hefyd, dw i wedi gweld y fath goed mewn sawl man yn y Berwyn.

**Martin Coleman**

Ar Moel Smytho o leiaf mae coed criafol hefyd yn gwladychu'r grug. Dylid gadael rhain wrth gwrs fel olyniaeth naturiol.

**Duncan Brown**

## Goleuni disglair dan lestr: y botanegydd Peter Benoit

**A ninnau wedi bod yn dathlu gwaith oes ein botanegwyr a blodau-garwyr Cymreig yn ddiweddar, efallai bod lle i godi llais dros un botanegydd o Gymro sydd yn cael ei anghofio. Ei enw yw Peter Benoit, y botanegydd-maes gorau a welais erioed. Mae'r lluniau yn ei ddangos mewn dyddiau hapusach yn ystod y cyfnod y cefais y fraint o gyd-grwydro ag ef.**





Peter yn dangos y ddau fath o grib y paniwr, y naill (ar ei chwith) yn gwltifar y pandai.


Gair bywgraffiadol, rhag ofn na chlywsoch chi erioed amdano: daeth i'r Bermo yn ddeuddeg oed yn 1940; bu'n byw mewn pum ty yno cyn setlo gyda'i fam am weddill ei oes ym mwthyn Pencarreg uwchben y dref (nes gorfod mynd i'r cartref henoed yno yn lled diweddar); dyn swil, hapus ei fyd, hen ffasiwn fel jwg, chwilfrydig, diymhongar a deallus. Aeth i'r ysgol yn y Bermo, cafodd wahoddiad i weithio yn Kew ar sail ei allu cynhenid yn unig (a wrthododd!), ac ni chafodd unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Treuliodd ei oes yn astudio planhigion. Ni fu iddo grwydro dim erioed o'i ffilltir sgwar ond yn ei ddydd fe gydnebid ei athrylith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ei gofnodion botanegol a'i gasgliad o fwsoglau yn rhyfeddod i'w gweld popeth wedi ei ffeilio mewn bocsus 'sgidiau mewn hen bapur newydd!. Ychydig iawn a gyhoeddodd y tu allan i'r cylchgrawn dysgedig *Watsonia* (heblaw am ei "Contribution to a Flora of Merioneth" y mae'n difaru bellach ei gyhoeddi o gwbl!) Mae'n bryder o'r mwyaf beth ddaw o'i gofnodion yn y pendraw. Dyma oleuni a ddisgleiriodd ennyd cyn diffodd drachefn dan lestr ein difaterwch.

**Duncan Brown**

## Morgrug hedegog 2018




Noson laith 11 Gorffennaf 2018 a morgrug hedfan ym mhob man. To y car ydi hwn. Dyffryn Tarell, Libanus **Keith Jones**




Mae morgrug hedegog yn ol y son yn cydamseru ei hymddangosiad gyda'r tywydd. Graffiau Ysgol Gynradd Llanrug. Mae'r llinell yn dangos pryd gwelwyd y morgrug gyntaf mewn perthynas a thymheredd a lleithder.

## Mwyar duon '76


berries not washed. picked near Nannau estate


Bramble Jelly 18th Sept 76
blackberries picked after wet spell
boiled 4lbs berries +
2 tabsp lemon juice
½ panful water (large Swanbord pan)
made 1½ pints juice (a little over)
allowed ¾lb sugar to ea. pint ∴ 18oz sugar
boiled approx 15 mins not full heat throughout though
Firm set

Dod o hyd i hen lyfr nodiadau coginio fy ngwraig yn cofnodi'r cnwd o fwyar duon yn 1976. O gofio'r haf hwnnw (nid anhebyg i eleni) mae'n werth ei roi ar gof a chadw (mi fasa'n werth gwneud hynny pr'un bynnag wrth gwrs!). Casglwyd y mwyar ar ôl cyfnod gwlyb ddechra Medi (daeth y Sychder Mawr i ben ddiwedd Awst). Cnwd gwerth chweil o fwyar duon i wneud 2 bwys o jeli (roedd hynny pan roedden ni'n byw ar gyrion Dolgellau - gweler y cyfeiriad at Ystâd y Nannau). Hyd yn hyn eleni mae'r mwyar duon yn duo'n ddigon del (DB).



Mwyar Duon cyntaf y flwyddyn i mi!.
Castell Penrhyn 19/07/18 **Keith Jones**

## Gwyddoniaeth go iawn yn yr ysgol




Mae Ysgol San Siôr yn trapio gwyfynod pob nos (dan ofal eu prifathro blaengar Ian Keith Jones. Dyma un o'r rhai gafodd ei ddal ar y 29 Mehefin eleni (wythnos 25) - y **llwyfwyfyn canibalaidd** (yndyn, mae'r lindys yn ganibals!). Roedd hwn yn anhygoel o gynnar, ond y llun yn ddigamsyniol.

## "Uchafbwyntiau" hafau sych y gorffennol

**1868:** Chwareli Ffestiniog yn segur o ddiffyg dŵr i yrru'r peiriannau - dim gwlith yn y nos - "rhywbeth dieithr yn y sychder a'r gwres yma" - pla o hwrli bwmp.

**1911:** streic fawr y docwyr a'r gweithwyr trafnidiaeth - y gwres yn dwysau'r anghydfod ac yn arwain at undebau yn codi'n rym gwleidyddol o ddifri.

**1959:** 5 Mai-10 Hydref. Yr hydref a'r gaeaf eithriadol gwlyb yn dileu'r cof o'r haf poeth.

**1976:** sychder yn para 16 mis - sychder "amaethyddol", "hydrolegol" a "meteorolegol" - pla o fuchod cwta.... yn wahanol i eleni.

**1995:** algau tocsig Llyn Tegid. Cynllun bondocio Wern Fudr, GNG Coedydd Aber yn cychwyn - flwyddyn mwyaf cynhyrchiol o olosg.

## Nos da Porth Nobla



Machlyd haul neithwr [24 Gorffennaf] yn porth Nobla.

**Hefin Owen**

## 'Pla' o chwilod dwr yn Rhiw



Meddai Dafydd Lewis: "Mae rhai mathau o chwilod ac anifeiliaid diasgwrn-cefn eraill yn cael eu denu at arwynebau gloyw. Dyma gofnod perthnasol i hyn a ddeuthpwyd ar ei draws heddiw:

*'A friend reports: "We have just been in Wales and had really hot weather. On Saturday* [23 Mehefin] *we had a plague of beetles – thousands and thousands of little brown beetles filling the air. A lot seemed attracted to cars (perhaps the warmth) but as soon as they landed they fried and died."*

*The location was in Rhiw a small village at the end of the Lleyn peninsula in Gwynedd, North Wales. The grid ref. is SH233286. There was a small pond in the village but he couldn't say for certain that this is where they emerged from but there were lots on the pond vegetation as on pretty much every nearby vehicle. He brought a few specimens with him and I'm pretty sure that most are Helophorus brevipalpis (2.5 mm) but there is one much larger specimen (4.5 mm) that I haven't managed to identify for certain yet. One of his photos shows a larger specimen (apologies for the quality). Is this a known phenomenon? I've not witnessed it before, not for Helophorus at least'.*

Dyma ymateb entomolegydd CNC Dr Mike Howe:

*"yes, H.brevipalpis is very common and renowned for swarming. On several occasions, I've had large nos of adults 'smothering' the car – they're attracted to shiny surfaces thinking it's open water."*

Dwi'n byw rhyw ddeg munud o'r Rhiw, ac mae'r ceir acw wedi cael eu gorchuddio gan yr un chwilod bach hefyd (ond nid i'r un graddau a'r car uchod). Bore Sadwrn fe welais i haid fach yn glanio ac yna ymhen chydig hanner dwsin o adar to yn mynd ati i wledda. Mae yna lyn bach mewn cae cyfagos.


## Cysga'n dawel Drawsfynydd



Y Lleuad a'i 'leugylch heno 22/07/18 **Keith O'Brien**



Gorffenaf 12ed, 2018. Coeden griafolen, gyda bedwen arian yn y cefndir sydd hefyd yn dioddef wedi y sychder hir anghyffredin yma. Mae llawer iawn eraill o'r un math i'w gweld yma yn ardal Dyffryn Nantlle.




MAE KEVIN DAVIES Caerdydd yn garedig iawn wedi rhannu graff o gynhyrchiant trydan ei baneli solar. Dyma'r graff hyd at 14 Gorffennaf. (Cofiwch dydyn ni ddim hanner ffordd trwy Gorffennaf eto) ond edrychwch ar fis Mehefin eleni (saeth du) o'i gymharu â'r blynyddoedd eraill.

....ac mae'r sychder yn parhau

Mwy mis nesaf mae'n siwr...



Sgwd Henrhyd bron yn sych
**Dewi Lewis**



Synnodd pawb o weld penbyliaid mewn pwll ar ymyl trac coedwigaeth i'r gogledd o Frechfa ddoe (7 Gorffennaf) ond ar ôl tipyn o ddarllen ymddengys nad yw hynny'n arbennig o anarferol. Maent yn gohirio eu datblygiad petai bwyd yn brin. Mae cofnodion o fis Awst ac awgrymir yn anaml gall ffurfiau anaeddfed goroesi'r gaeaf a chwblhau'u datblygu y flwyddyn wedyn. **Jackie Willmington**

Tybed ydi anallu eich penbyliaid chi Jackie i gwblhau eu cylch bywyd yn ganlyniad yn gymaint i'r Mawrth oer (ac felly cnydau hwyr o benbyliaid ar ôl i'r rhai cynta farw) ag i unrhyw effaith y sychder presennol? Ond nid felly yng Nghwm Dyli efallai...



Llun: Gill Brown

Sawl un wedi nodi bod adar gwyllt wedi mentro i mewn i nifer o dai drwy ffenestri a drysau cefn agored yn Port yn y tywydd braf yma. Adar duon ac adar y to yn bennaf. Bora ddoe, a minnau wedi agor y drws cefn i adael aer ffresh i mewn, mi ges i fy nychryn gan swn yn dod o'r gegin. Mi ddarganfyddais wylan benwaig yn y gegin yn chwilio am fwyd! Mi roeddwn mewn gormod o frys i'w gael o allan i dynnu llun yn anffodus. Mi adawodd gryn dipyn o lanast ar ei ôl. **Elfyn Lewis**




Cario dwr I'R gorllewin



Bore 'ma. 12/07/18 cronfa Llwyn Onn yn y Bannau. Cronfa Cantref yn is ond dim rhy isel... eto! **Beth am hanes a lluniau'r hen bont adeg ei bri?** **Keith Jones**



Coeden dderw. Llwythi o ganghenau bach yn tyfu ar y boncyff.Afon Ogwen (Cochwillian) 10 Meh'n 2018 **Graham Williams**

Mae pobl y coed yn galw rhain yn dyfiant LAMMAS; *lammas* oedd gŵyl Calan Awst. Braidd yn gynnar dwi'n cyfaddef ond efallai ei fod yn symptom o syched (yn haf poeth 1976 gwelwyd yr un peth ).



Cnwd-olion o'r newydd yng Nghymru
https://www.atlasobscura.com/articles/what-are-cropmarks-wales

# Y FFWLBART: cip ar erthygl llawn ddiweddaraf WiciNatur



**Mamal cigysol o deulu'r carlymfilod (*Mustelidae*), sef teulu'r wenci a'r carlwm, yw'r ffwlbart (lluosog: 'ffwlbartod', Lladin: Mustela putorius). Fe'i ceir yng nghoedydd, ffermdir a gwlyptiroedd ar draws Ewrop. Mae'n bwydo ar gwningod, cnofilod, llyffantod ac infertebratau. Dyma un o hynafiad gwyllt y ffured dof.**

Mae ei gorff a'i ben yn 20–46 cm o hyd ac mae ei gynffon yn 7–15 cm. Mae ganddo ffwr brown tywyll gyda blew melyn ar ei ystlysau a phatrwm du a gwyn trawiadol ar ei wyneb. Mae'n greadur swil iawn ac i'w weld allan yn y nos. Mae'n nofiwr cryf ac yn gallu dal pysgod ond mamaliaid bychan yw ei hoff fwyd.

**Y ffwlbart yng Nghymru**

Roedd y ffwlbart (*Mustela putorius*) yn gyffredin trwy wledydd Prydain ar un adeg ond yn gyfyngedig i Eryri a Chanolbarth Cymru erbyn dechrau'r 20g. Wrth i gipera leihau o'r 1920au, a thrapio cwningod leihau o'r 1950au, cynyddodd yn gyflym. Goroesodd y rhywogaeth yng Nghymru gan ymledu trwy ganolbarth Lloegr a cheir niferoedd cynyddol yn Lloegr a'r Alban heddiw. Fe'i croeswyd â'r ffured ddof i greu'r "ffured ddu" sy'n ddiguro ar gyfer hela cwningod a difa llygod mawr. Ar ddechrau'r 21g credir fod dros 17,000 ohonynt yng Nghymru.

Pa dystiolaeth gynhanesyddol o'r holosen sydd gennym am bresenoldeb y ffwlbart yng Nghymru a/neu Brydain?

1. Mae yna gofnodion o 9 is-ffosil a gafwyd o waddodion Pleistosen o ffwlbart *Mustela putiorus*, 3 ohonynt o Gymru. Fodd bynnag, nid yw cofnodion yr is-ffosiliau hyn wedi eu dyddio'n fanwl, neu wedi eu dyddio o gwbl.

2. Gallesid dehongli naws gogleddol dosbarthiad Ewropeaidd y ffwlbart fel arwydd ei fod wedi cyrraedd Prydain trwy ymlediad naturiol i'r gogledd o dde Ewrop ar ôl enciliad y rhewlif ond cyn iddi gael ei hynysu. Yn y cyswllt yma mae'n ddadlennol cymharu dosbarthiad Ewropeaidd gogleddol y bele goed *Martes martes* a gyrrhaeddodd Prydain gyda bele'r graig *Martes foina* sydd a dosbarthiad Europeaidd mwy deheuol ac na chyrrhaeddodd Prydain o gwbl (er iddo gyrraedd gogledd Ffrainc).

**Beth ddywed yr enwau wrthym?**

Cymraeg

Yn 2002 cwestiynodd erthygl yng nghylchgrawn Mammal Review Cymdeithas y Mamoliaid (''The Mammal Society'') statws cynhenid y ffwlbart yng Nghymru a Phrydain gan ddadlau bod y record ffosil prin, a thystiolaeth ieithyddol Gymraeg gynnar yn bwrw amheuon ar y statws hon. Yn wahanol i fwyafrif anifeiliaid cynhenid Prydain, nid yw enw Cymraeg y ffwlbart o gyff Celtaidd - mae'n tarddu o'r Saesneg Canol *foulmart*. Nid yw hyn yn anhebyg i fwyafrif rhywogaethau estronol Prydain fel y gwningen a'r danas (enwau sy'n tarddu, yn eu trefn, o eiriau'r Saesneg Canol *konyng* a Hen Ffrangeg *dain*). Nid oes son am ffwlbart mewn llenyddiaeth Eingl-Sacson na chwaith mewn llenyddiaeth Cymraeg cyn y Concwest Normanaidd yn 1066. Y cyfeiriad cyntaf ato yn y Gymraeg oedd yn Llyfr Coch Hergest y 14g ac yn Saesneg yn *The Pardoner's Tale* (1383) gan Chaucer. Mewn cyferbyniad, mae tystiadau o'r gair Cymraeg bele *Martes martes* yn mynd yn ôl i o leiaf Cyfreithiau Cymreig y 10g, ac o bosibl, llawer ynghynt yn yr Hen Ogledd (yng ngororau'r Alban a Lloegr)


Llydaweg

Y geiriau Llydaweg am ffwlbart yw *pudask*, *putoask* a *puteos*, pob un yn tarddu o'r Ffrangeg *putois* [7]. Nid oes 'cof' ieithyddol 'Celtaidd' felly yn yr iaith Lydaweg (iaith a gafodd ei ffurfio o'r Gernyweg Gynnar a'r Gymraeg Gynnar yn y 5ed a'r 7g gan drawsblaniad siaradwyr yr ieithoedd hynny) yn y fan honno chwaith. Gellid dehongli'r absenoldeb hwn yn yr eirfa Gymraeg fel dadl i amau presenoldeb y ffwlbart yn nhiriogaeth siaradwyr y Gymraeg gynnar ar y pryd). Y ffwlbart yw unig famol yr ystyrir yn gynhenid sydd ag enw Cymraeg o darddiad estronol).

Saesneg

Daeth y gair *polecat* i olau dydd ar ôl Concwest Normanaidd Lloegr, wedi ei ysgrifennu fel *polcat*. Tra bo'r ail sill yn hunan-esboniadwy, mae tarddiad y cyntaf yn anghlir. Fe'i terddir o bosib o'r Ffrangeg *poule* (iar), yn adlewyrchu hoffter yr anifail am ddofednod, ond fe all fod hefyd yn amrywiad ar yr Saesneg *ful*, yn golygu *foul* (drewllyd). Yn y Saesneg Canol cyfeirid at yr anifail fel *foumart*, yn golygu rhywbeth fel "bele drewllyd" (i'w gyferbynnu efallai a'r "bele melys" (*sweet mart*)).

Mae'n debyg nad oes yr un anifail Prydeinig arall sydd wedi cael cymaint o enwau llafar ag yw'r ffwlbart. Yn ne Lloegr cyfeirid ato fel *fitchou* tra'n y gogledd fe'i adwaenid fel *foumat* neu *foumard*. Fodd bynnag mae llu o rai eraill gan gynnwys amrywiadau sillafu diddiwedd: *philbert, fulmer, fishock, filibart, poulcat, poll cat,* ayb. Adnebu Charles Oldham o leiaf 20 fersiwn o'r enw yn Swyddi Hertford/Bedford yn unig.



Dosbarthiad y ffwlbart yn Ewrop heddiw

I weld yr erthygl llawn ewch i https://cy.wikipedia.org/wiki/Ffwlbart

# "Be' wyt ti wedi wneud rwan?" (atgofion daeargryn 19 Mehefin 1984)




## Neges 19 Mehefin gan Malcolm Hanks

*Who remembers the Big Earthquake?*

Dyma'ch atgofion:

**Hugh Gwynne** simdde uchel yn disgyn ar Stryd Fawr Cricieth...

**Iwan Williams** Cofio pawb allan yn y stryd yn eu pyjamas yn y Groeslon. Amau bod atomfa Traws wedi ffrwydro. Hefyd yn ystod y nifer helaeth o sgil-ddirgryniadau dwi'n cofio clywed y llestri yn ysgwyd ar y ddresel a ffenestri yn ysgwyd.

**Dwynwen Roberts** Mam yn meddwl fod na lorri 'di mynd i mewn i ochor y ty, ar boi yn siop papur Newydd yn poeni fod 'na "nuclear war" yn cychwyn wrth i nwydda syrthio oddi ar y silffoedd! Yn Llandudno...

**Jackie Willmington** Rwyf yn cofio clywed to sinc ysgubor y Ganolfan Bridio Gwartheg yn ratlo a hynny yn Rhuthun.

**Selwyn Thomas** On i yn un o'r rhai yn adeiladu canolfan newydd Trefor, newydd orffan panad barod i fynd allan o cwt, just cyn 8yb dwi meddwl oedd hi

**Duncan Brown** Roedden ni yn y ty yn Nyffryn Ardudwy, bron a'i werthu i ddod i Waunfawr. Dyma Mistar Cyfrifol y ty yn rhedeg allan am ei fywyd a gadael ei wraig a'i blentyn ar ei ôl! Nymbar Wan oedd hi o ran greddf - a dysgu i mi rhywbeth am y bod dynol, neu y bod dynol hwn o leiaf! Bu bron i werthiant y ty ddisgyn trwodd gan i'r darpar brynwyr ofyn am ail arolwg ar y tŷ. Yn ffodus doedd y tŷ ddim gwaeth!

**Catherine Pritchard** Pawb allan yn eu gwisg nos wrth i mi fynd ir gwaith a llawer o bethau wedi disgyn oddi ar y silffoedd yn Woolworth Pwllheli ble'r oeddwn yn gweithio. Cofio'r cryndod melltigedig pan oeddwn yn codi.

**Morwen Rowlands** Roeddwn i mewn awyren ar y ffordd i Bortiwgal. Pan ddychwelais adre i Benllech, sir Fôn, mi sylwes ar grac amlwg yn y gwaith brics a ymledai o'r llawr at y silff ben tân. Roedd rhaid ei drin ( yswiriant!)

**Gwyneth Ffrancon Lewis** Ydw cofio yn iawn. Fy merch yn dathlu ei phenblwydd yn dair oed a finnau yn disgwyl fy nhrydedd plentyn o fewn chydig wythnosau! Codi o'r gwely a theimlo y llawr yn crynu. Daria y babi yn dod yn gynnar!!! Penblwydd hapus i fy merch Elliw [yn 42!]!

**Chris Simpkins** *Me - bed shook and ornaments jumped off shelves! Moore in Cheshire near Warrington.* [Dyma'r cofnod o efaith pellaf a dderbyniwyd]

**Lis Puw** Cofio meddwl fod lori fawr yn dod trwy'r ardd at y tŷ. Bachais Dafydd, yn ddwy oed, o'i wely bach a rhedeg allan yn droednoeth. A rhyfeddu fod pob peth yn edrych yn normal.

**Catrin Lliar Jones** Yn y gwely bync uchaf yn Llanaelhaearn a Mam wrthi'n y gegin yn rhoi matsien mewn stôf nwy i neud brecwast!

**Rwth Tomos** Roeddwn i yn byw yn Wrecsam ar y pryd. Teimlais y ty yn crynu a gweld llestri yn cwympo. Rhedais allan o'r ty gan feddwl fod to wedi disgyn mewn o'r pwllau glo sy'n rhedeg o dan Wrecsam ac un ohonynt (nid oedd neb yn gwybod ei fod yna) wedi cwimpo o dan fy nhy.

**Gareth Pritchard** Cofio Marian, y wraig, yn gweiddi, "Beth wyt ti wedi wneud rwan?" (Llandudno)

**Meira Owen** Cofio'n iawn. Diwrnod cyntaf gwyliau ysgol. Pawb allan yn y stâd wedyn yn meddwl beth oedd wedi digwydd. Teimlad fel trén yn mynd o dan y ddaear! ( Bontnewydd.)

**Eirwyn Williams** Hanner lawr y grisiau oeddwn yn meddwl na Taran oedd o ond clywed y ffenestri yn ysgwyd mi nes i feddwl na Deargryn oedd yn digwydd yn Bethesda. Mi oedd yna newydd yn dod trywedd ar y Radio tua 8.15 am bod yna Deargryn wedi digwydd mewn ardaloedd yn Gwynedd.

**Meira Jones** Dreifio fyny stryd Penlan Pwllheli, a rwbel yn landio ar bonat y car -meddwl wnes fod yr adeiladwyr oedd yn toi siop Maggie Ann wedi lluchio peth ar ben y car, ond pan es i mewn i'r parking dros ffordd....... Roedd cydweithiwr yno yn welw ac wedi bod yn dyst i simdda Midlan Bank ddymchwel. Gan mod i yn y car wnes i ddim teimlo'r cryndod

**Glenys Mair Roberts** Cofio ei deimlo hyd yn oed yn y Creigiau, ger Caerdydd. Ac ôlgryniadau yn Llŷn rai wythnosau wedyn - y plant yn y bath gen i a finnau ddim yn siwr a ddylwn redeg allan efo nhw. Craciau yn nheils cegin fy mam yng nghyfraith yn Edern.

**Keith Jones** Wal y ffordd uwchben Penygroes ar Lon Garmel) ochrau Clogwyn Melyn. Y clip drwg lle roedd bus ysgol nedw methu mynd mewn rhew ) o ni yn y gwely pan ddoth ac yn meddwl fod tanc dwr poeth ni wedi ffrwydro. (Newydd weld ffilm am danc stem yn ffrwydro dwi yn meddwl!) Mi roedd yna lun or wal wedi dymchwell yn 'stafell aros Dr JCB Thompson.

**Eleri Lewis** Yn fy ngwely a cofio clywed y joists yn y to yn gwichian, neindio allan a rhedeg lawr y grisiau ond gadael y plant yn eu gwlau!!! - byth anghofio y dychryn!

**Richard Parry Hughes** Wrthi'n godro ar gyrrion mynydd Carnguwch lle roeddynt wedi pwyntio cannol y daeargryn, a teimlo y concrid dan fy nhraed yn symud. Gosodwyd offer monitro ar fy nhir gan Brifysgol Caeredin.

**Luned Meredith** Clywed sŵn mawr a phopeth yn ratlo. Neidio allan o'r gwely a rhuthro i weld oedd y plant yn iawn. Gymodd funud imi sylweddoli mai effaith daeargryn oedd o. Llanuwchllyn.

**Megan Pritchard** Cofio yn iawn drysau y wardrobes yn ysgwyd - rhedeg lawr grisia meddwl fod rwbath wedi crashio i'r tŷ. Penysarn Sir Fôn.

**Annwen Hughes** Cofio clywed y dresal yn ysgwyd ond Diolch i'r drefn nath run or platiau glas ddisgyn .Dad allan yn y caeau nath o ddim teimlo na clywed dim. Yn Pontllyfni. cofio hefyd yr after shocks a spio allan trwy ddrws a phob man yn ysgwyd

**Elin Meredith** Diwrnod cynta gwyliau haf yr ysgol (ond gweld mai dydd Iau oedd hi, felly falle mod i di cam-gofio hyn?) a chael fy neffro gan y gwely'n bownsio a lluniau'n ysgwyd a chlecio yn erbyn y wal. Ar ol gweld nad oedd na lori di crashio o dan y ty, Trawsfynydd wedi ffrwydro oedd y meddwl nesaf. Cwm Cynllwyd ger Llanuwchllyn.

**Dewch a mwy....**

## Proffil: lluniau Bethan Vaughan Davies



**Pob un (a'u hanes) i'w gweld ar Cymuned Llên Natur (Grwp Facebook y prosiect). Ymunwch yn ddi-oed.**